| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd |
| **DYDDIAD** | 20 Mehefin 2014 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2013/14, a<br>• Ffurflen Swyddogol o'r Cyfrifon, wedi'i ardystio, ond cyn Archwiliad |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a nodi'r wybodaeth |
| **AWDUR** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD CYD-BWYLLGORAU

1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod arweiniol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd rhwng Gwynedd a Môn, baratoi cyfrifon blynyddol, hy, cyfrif incwm a gwariant a mantolen.

1.2 Ystyrir y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, oherwydd trosiant is na £1m, i fod yn "Is-Gyd-Bwyllgor".

1.3 Ar gyfer "Is-Gyd-Bwyllgor", rhaid cwblhau ffurflen swyddogol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, a bydd hwnnw yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

## 2. CYFRIFON 2013/14

2.1 Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2013/14 yma fel Atodiad A ar ffurf adroddiad "alldro" syml.

2.2 Yn Atodiad B, cyflwynir y ffurflen swyddogol am 2013/14, wedi'i gwblhau a'i ardystio cyn yr archwiliad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dafydd L Edwards) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-bwyllgor.

2.3 Bydd y rhain yn destun archwiliad buan gan Swyddfa Archwilio Cymru, a bydd yr Archwilydd Penodedig (Anthony Barrett) yn cynhyrchu adroddiad "ISA260" (yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru) i'w gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor ar 26 Medi 2014.

2.4 Bu llithriad i'r rhaglen waith am amryw o resymau sydd wedi golygu bod y gwariant terfynol am 2013/14 yn llai na'r gyllideb wreiddiol. Mae'r "tanwariant" yma wedi ei roi o'r neilltu mewn cronfa ar gyfer ei ddefnyddio yn 2014/15.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn a nodi'r wybodaeth sydd yn yr atodiadau, sef –

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2013/14 – Atodiad A
- Ffurflen Swyddogol ar gyfer Archwiliad 2013/14 – Atodiad B